# Asesiad o'r Effaith ar Adnoddau Naturiol a Bioamrywiaeth

# Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)

### Y Cefndir

Rydym wedi cynnal asesiad o'r effeithiau ar fioamrywiaeth, fel y nodir o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i ni fabwysiadu egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu ein polisïau. Mae'r egwyddorion hyn yn cynnwys ystyried goblygiadau hirdymor, cydweithio â phobl, cymunedau, a'i gilydd, gweithredu i atal problemau, fel newid yn yr hinsawdd a chymryd dull mwy integredig.

### Y Polisi Adnoddau Naturiol

Ni fydd cyflwyno cynllun rheoleiddio ar gyfer llety ymwelwyr yn cyflawni unrhyw un o'r blaenoriaethau cenedlaethol yn uniongyrchol yn y Polisi Adnoddau Naturiol. Nid yw'n bwriadu effeithio'n uniongyrchol ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, efallai y bydd effeithiau eilaidd o'i gyflwyno.

Yr unig gae ras yng Nghymru yw Stadiwm Valley Greyhound yn Ystrad Mynach, sydd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd y gwaharddiad yn effeithio ar ddyfodol y stadiwm sydd wedi'i leoli ar safle cae brown mawr o fewn gorlifdir.

Bydd y penderfyniad ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd i'r tir, o ganlyniad i'r gwaharddiad, yn un i'r tirfeddiannwr ac Is-adran Gynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Felly, bydd yn destun asesiad trylwyr o'i effeithiau ar bob agwedd ar adnoddau naturiol a bioamrywiaeth.

### Bioamrywiaeth

Nid yw'r Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) yn effeithio'n uniongyrchol ar bolisi bioamrywiaeth neu adnoddau naturiol. Fel y dywedwyd yn gynharach, mae'r stadiwm yn safle cae brown ar orlifdir. Fodd bynnag, nid yw'r Bil ac unrhyw waharddiad yn darparu unrhyw benderfyniad ar ddymchwel neu newid defnydd y safle fel arall.

Mewn gwirionedd, efallai y bydd effeithiau cadarnhaol ar fioamrywiaeth os yw'r perygl o lifogydd yn rhy fawr ar gyfer unrhyw fath arall o ddatblygiad. Yn yr un modd, gallai fod effeithiau cadarnhaol pe bai llai o bobl yn teithio i'r ardaloedd ar gyfer digwyddiadau. Fodd bynnag, bydd defnydd o'r tir yn y dyfodol, pe bai'n cael ei werthu a/neu ei ailddatblygu, yn benderfyniad i berchnogion Valley Stadium a hefyd Is-adran Gynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Rydym wedi adolygu'r ffynonellau gwybodaeth diweddaraf i lywio'r asesiad hwn. Nid yw'r Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) yn effeithio ar y rhywogaethau a'r cynefinoedd o brif bwysigrwydd fel y'u rhestrir a'u cyhoeddir o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae disgwyl i'r Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol a'r datganiadau ardal a gyhoeddwyd gan CNC fod yn berthnasol pan ofynnir i'r awdurdodau lleol wneud penderfyniadau lleol am y tir.

Yn yr un modd, nid yw'r Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) yn rhoi sylw i adeiladu na rheoli tir, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ac felly mae cofnodion bioamrywiaeth ar gael drwy Ganolfannau Cofnodion Lleol yr Amgylchedd , Atlas Cymru Fyw neu MapData Cymru.

Gan mai pwrpas y ddeddfwriaeth hon yw gwahardd rasio milgwn yng Nghymru, ni fydd unrhyw effaith ar gefnogi mentrau gwyddoniaeth dinasyddion na chynlluniau monitro, ac ni fydd yn casglu unrhyw ddata bioamrywiaeth. Fodd bynnag, mae potensial i'r awdurdod lleol ddefnyddio'r cynlluniau hyn i ddylanwadu ar y tirfeddiannwr presennol neu y dyfodol i gefnogi gweithredu bioamrywiaeth. Gallai effaith gronnol gwthio a dylanwadu ar fusnesau a'u cleientiaid dros y blynyddoedd helpu i adeiladu capasiti ar gyfer gweithredu bioamrywiaeth mewn arweinwyr busnes. Gallai hyn gyfrannu at amcan 1 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020 i 2021.

**Newid Hinsawdd**

Mae swyddogion wedi ystyried effaith y cyngor hwn ar garbon. Nid ydym wedi mesur yr allyriadau sy’n gysylltiedig ag ef am ein bod yn disgwyl iddynt ostwng islaw’r trothwy ar gyfer dadansoddiad meintiol. Rydym yn hyderus iawn fod ein hasesiad yn gywir.

**Asesiad Amgylcheddol Strategol**

Nid oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer y polisi hwn.  Mae Cyfarwyddeb yr Ue (2001) 2001/42/EC yn asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd.  Dylid asesu pob cynllun a rhaglen yn y DU sy'n dod o fewn cwmpas y Gyfarwyddeb ar gyfer prosiectau adeiladu neu ddatblygu mawr.

Mae Erthygl 3(2) yn gwneud SEA yn orfodol ar gyfer cynlluniau a rhaglenni sy'n cael eu paratoi ar gyfer cynllunio gwlad a thref neu ddefnydd tir. Nid yw'r penderfyniad yr

ydym yn ei gynnig yn ymwneud yn uniongyrchol ag unrhyw fath o ddatblygiad yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â chynllunio gwlad a thref a defnydd tir. Er bod y cynllun hwn yn ymwneud â thwristiaeth, nid yw'n gosod fframwaith ar gyfer unrhyw ganiatâd datblygu yn y dyfodol ac ni fydd yn cael effaith uniongyrchol sylweddol ar yr amgylchedd.

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Nid yw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ofynnol yn ôl y gyfraith gan na fydd y Cynllun yn effeithio ar rwydwaith safleoedd gwarchodedig Ewropeaidd Natura 2000.

**Asesu Effeithau Amgylcheddol**

Nid yw'r Bil yn brosiect sy'n gofyn am ganiatâd datblygu ac felly nid yw'r gwahanol reoliadau sy'n gofyn am asesiad effaith amgylcheddol yn berthnasol.